# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb y Grug**

**Ysgol Gynradd Llanrug**
**Llanrug**
**Caernarfon**
**LL55 4PR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/02/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Clwb y Grug, sy'n darparu gofal y tu allan i'r ysgol, yn gweithredu o Ysgol Gynradd Llanrug yn Llanrug, Gwynedd. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ofalu am uchafswm o 24 o blant o dan 12 oed. Darperir gofal ar gyfer plant rhwng 4 ac 11 oed. Y person cofrestredig yw Elena Williams, a hi hefyd yw'r person â chyfrifoldeb, ar y cyd â Gwennan Williams. Yr oriau agor yw dydd Llun i ddydd Gwener 3:00 p.m. i 5:30 p.m. (yn ystod y tymor). Mae'r gwasanaeth yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arwain a Rheoli** | **Digonol** |

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac yn mwynhau eu dysgu drwy chwarae. Mae'r staff yn gofalu amdanynt mewn ffordd gyfeillgar a chroesawgar. Mae'r amgylchedd dan do yn addas ar gyfer anghenion y plant. Mae'r ardaloedd chwarae awyr agored yn fawr a chânt eu rhannu mewn partneriaeth rhwng yr ysgol a'r gwasanaeth. Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn briodol ond mae angen gwella rhai meysydd er mwyn bodloni gofynion.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf mae cypyrddau storio newydd wedi cael eu prynu, mae drws ffrynt newydd wedi cael ei osod ac mae'r arweinwyr wedi llwyddo i sicrhau grant gan yr awdurdod lleol i brynu adnoddau newydd.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi cynghori'r person cofrestredig bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â ffeiliau'r staff (rheoliad 28) er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Nid oes hysbysiad wedi cael ei gyflwyno y tro hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r person cofrestredig gymryd camau i unioni'r achos hwn o ddiffyg cydymffurfio oherwydd edrychir ar y mater eto yn yr arolygiad nesaf.

Rydym wedi gwneud argymhellion mewn perthynas â chofnodi gwybodaeth am feddyginiaeth, datblygu meysydd dysgu a ffurfioli trefniadau goruchwylio'r staff.

## 1. Llesiant Da

**Crynodeb**

Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn dda, ac maent yn gyfarwydd â’r trefniadau dyddiol. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Mae'r plant yn mwynhau eu dysgu drwy chwarae ac maent yn gwneud dewisiadau er mwyn dilyn eu diddordebau personol. Maent yn datblygu eu hannibyniaeth yn addas.

**Ein canfyddiadau**

Roedd y plant yn mynegi eu hunain yn dda. Daethant atom a siarad â ni yn hyderus am yr hyn yr oeddent yn hoffi ei wneud yn y clwb. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn cael llawer o hwyl yn chwarae gyda'u ffrindiau. Dywedodd plentyn wrthym ei fod yn mwynhau dod i'r clwb ar ddydd Gwener am ei fod yn mwynhau cael tost yn ystod amser byrbryd. Roeddent yn gwneud dewisiadau ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain mewn ffordd gadarnhaol. Er enghraifft, gwnaethant ddangos rhai o'u hoff deganau i ni a sut roeddent yn creu siapiau a cherbydau diddorol gyda chysylltwyr magnetig.

Roedd y plant yn egnïol ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Roedd ganddynt ymdeimlad o berthyn ac roeddent yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol. Dangosodd y plant i ni ble roeddent yn storio eu heitemau personol a sut roeddent yn defnyddio'r toiledau a'r cyfleusterau golchi dwylo. Gwnaethant olchi eu dwylo cyn cael byrbryd heb lawer o anogaeth gan y staff. Roedd y plant yn mynd at y staff yn ddi-ffwdan i ofyn am deganau a gemau bwrdd gwahanol.

Roedd awyrgylch cefnogol a chyfeillgar yn galluogi'r plant i reoli eu rhyngweithiadau yn gadarnhaol. Er enghraifft, gwnaeth un plentyn gymryd ei amser i egluro i'r staff sut i chwarae gwyddbwyll a dangosodd i'r staff a'i ffrindiau sut roedd pob darn yn symud ar draws y bwrdd. Roedd y plant hŷn yn mwynhau chwarae gyda'u ffrindiau iau ac roeddent yn gyffrous am ben-blwydd eu ffrind iau. Er enghraifft, canodd pawb ‘pen-blwydd hapus’ a greodd achlysur cymdeithasol cadarnhaol. Roedd y plant yn dangos cwrteisi drwy gydol y sesiwn.

Roedd y plant yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig ac roeddent yn mwynhau gweithgareddau creadigol. Er enghraifft, dangosodd y plant i ni sut roeddent yn lliwio'r templedi siâp calon yn ofalus ac roeddent yn brysur yn gwneud cerdyn pen-blwydd ar gyfer eu hathro dosbarth. Roedd y plant yn mwynhau gwneud bwydwyr adar a gwnaethant ddweud wrthym yn falch y byddent yn mynd â'u rhai nhw adref pan fyddant wedi gorffen. Dewisodd plant eraill i gyfarwyddo eu cyfleoedd chwarae eu hunain yn dda, gan drefnu cystadlaethau gemau rhyngweithiol gyda'u ffrindiau a'r staff.

Roedd y plant yn gallu cyflawni tasgau drostynt eu hunain. Fodd bynnag, yn ystod amser byrbryd cafodd eu byrbrydau a'u dewis o ddiod eu gweini iddynt, er eu bod yn gallu gwneud hyn eu hunain. Roedd y plant yn gallu archwilio eu hardal chwarae yn rhydd ac roeddent yn cael eu cymell i ddewis a chyfarwyddo eu cyfleoedd chwarae yn bersonol. Roeddent yn

datblygu eu sgiliau iaith am eu bod yn cael eu hannog i siarad am eu gweithgareddau ac roedd hyn yn helpu i ddatblygu eu geirfa yn gadarnhaol.

## 2. Gofal a Datblygiad Da

**Crynodeb**

Mae'r staff yn hyrwyddo arferion iach yn dda ac yn rheoli rhyngweithiadau yn effeithiol. Maent yn darparu gweithgareddau diddorol i'r plant i ddatblygu eu profiadau dysgu yn gadarnhaol.

**Ein canfyddiadau**

Roedd y staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau ac yn eu rhoi ar waith yn dda. Roeddent yn hyderus am y gweithdrefnau y byddent yn eu dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryderon diogelu am blentyn yn eu gofal. Roedd y staff wedi diweddaru eu hyfforddiant diogelu ac roeddent wedi cofrestru i adnewyddu eu hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig o fewn y terfyn amser cywir. Roeddent yn hyrwyddo arferion hylendid personol effeithiol yn dda drwy annog y plant i olchi eu dwylo ar adegau priodol. Roedd y staff yn gofyn i'r rhieni lofnodi cofnodion damweiniau a digwyddiadau er mwyn cydnabod eu bod wedi cael gwybod amdanynt, ond nid oedd yr holl wybodaeth a gasglwyd am feddyginiaeth y plant wedi cael ei llofnodi gan y rhieni.

Roedd y staff wedi cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag argymhelliad yr arolygiad blaenorol o ran cynnal ymarferion tân. Roedd cofnodion ysgrifenedig yn dangos bod ymarferion tân mwy rheolaidd wedi cael eu cynnal gyda'r nod o sicrhau bod yr holl blant yn ymgyfarwyddo â sut i adael y safle mewn argyfwng. Roedd y byrbrydau a ddarparwyd yn iach gyda dewis o laeth neu ddŵr i'w yfed. Fodd bynnag, nid oedd dŵr yfed ffres ar gael yn hawdd i'r plant helpu eu hunain a sicrhau eu bod wedi eu hydradu drwy gydol y sesiwn.

Roedd y staff yn defnyddio dull cynnes a chyfeillgar gyda'r plant. Roeddent yn eu hadnabod yn dda ac yn siarad â nhw am eu teuluoedd a'r hyn roeddent yn hoffi ei wneud gyda diddordeb. Roedd y staff yn ymgysylltu â'r plant yn gadarnhaol drwy gydol eu gweithgareddau ac yn eu canmol am eu hymdrechion.

Roedd y staff yn hwyluso gweithgareddau diddorol. Er enghraifft, roedd y staff yn codi ymwybyddiaeth y plant o'u byd naturiol yn dda. Gwnaethant helpu'r plant i addurno eu bwydwyr adar ceramig a dangos amrywiaeth o luniau o adar a chynefinoedd gwahanol y gallent ddod o hyd iddynt yn eu gerddi. O ganlyniad, roedd y plant yn sgwrsio am fywyd gwyllt, wrth ddatblygu eu sgiliau iaith yn effeithiol. Gwnaethant gymryd rhan mewn gemau pen bwrdd gyda'r plant yn gadarnhaol a hwyluso cyfleoedd i'r plant gyfarwyddo eu cyfleoedd chwarae eu hunain ac arwain yn dda. Roedd gwaith cynllunio gweithgareddau yn cael ei drefnu yn wythnosol ac yn cynnwys awgrymiadau'r plant mewn ffordd addas.

## 3. Yr Amgylchedd **Digonol**

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae cyfleusterau addas ar gael i ddiwallu anghenion y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r arweinwyr wedi gwneud yn siŵr bod ansawdd y teganau a'r adnoddau yn briodol ar gyfer oedrannau'r plant sy'n cael gofal.

### Ein canfyddiadau

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o'r neuadd yn adeilad yr ysgol ac mae'r brif fynedfa drwy dderbynfa'r ysgol. Roedd yr arweinwyr yn gwneud yn siŵr eu bod yn diogelu'r amgylchedd rhag mynediad heb awdurdod. Er enghraifft, wrth gyrraedd gofynnwyd i ni ddangos ein bathodyn adnabod a chofnodwyd ein presenoldeb yn llyfrau ymwelwyr yr ysgol a'r gwasanaeth. Roedd asesiadau risg ar waith ac roedd y rhain yn nodi'r risgiau posibl i'r plant a'r mesurau a oedd ar waith i reoli'r risgiau hynny. Roedd yr yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn gyfredol. Roedd y staff yn goruchwylio'n dda yn ystod gweithgareddau ac wrth fynd gyda'r plant ar draws iard yr ysgol i'r ystafell ddosbarth er mwyn mynd i'r clwb sinema.

Ers yr arolygiad diwethaf mae'r person cofrestredig, mewn partneriaeth â'r ysgol, wedi cymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael â rhai o'r argymhellion yn ymwneud â'r amgylchedd. Er enghraifft, maent wedi prynu cypyrddau storio, adnoddau a drws ffrynt newydd ac maent wedi rhoi'r gwifrau rhydd mewn blwch er mwyn gwella canlyniadau i'r plant. Roedd cynllun yr amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant gan eu galluogi i archwilio'u hardal chwarae yn rhydd a gwneud dewisiadau.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod gwaith celf y plant wedi cael ei gyflwyno mewn ffordd ddeniadol, megis coeden ôl llaw yn symboleiddio'r plant fel aelodau o deulu'r clwb. Roedd yna hefyd ardal ddynodedig i'r plant storio eu heitemau personol ac roedd hyn yn cyfrannu at ymdeimlad o berthyn. Roedd y toiledau yn lân ac roedd yn hawdd cyrraedd y cyfleusterau golchi dwylo. Ni welsom enghreifftiau o chwarae yn yr awyr agored yn ystod ein hymweliad ond roedd y cyfleusterau awyr yn agored yn fawr.

Roedd yr arweinwyr wedi trefnu'r ardaloedd dysgu mewn ffordd addas. Fodd bynnag, roedd diffyg nwyddau cartref masnachol wedi'u hailgylchu er mwyn helpu'r plant i ddatblygu eu chwilfrydedd ac ymestyn eu profiadau chwarae. Roedd diffyg adnoddau i godi ymwybyddiaeth y plant o'u cymdeithas ehangach ac nid oedd unrhyw ardaloedd cyfforddus wedi cael eu creu gyda dodrefn cyffyrddol i'r plant gael cyfle i orffwys neu ymlacio i ddarllen llyfr. Roedd gan yr ardaloedd crefft amrywiaeth o adnoddau o ansawdd da iawn ac roedd y plant yn mwynhau defnyddio'r rhain i greu eu lluniau eu hunain. Roedd yr arweinwyr yn gwneud yn siŵr bod amrywiaeth o gemau bwrdd a gweithgareddau pen bwrdd ar gael a oedd yn briodol ar gyfer ystod oedran y plant a oedd yn cael gofal.

## 4. Arwain a Rheoli — Digonol

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn briodol ond mae angen gwella rhai meysydd er mwyn bodloni gofynion. Mae ganddynt system ar waith i werthuso'r gwasanaeth ac mae adroddiad yn adolygu ansawdd y gofal wedi cael ei gwblhau yn dda. Caiff y staff a'r adnoddau eu rheoli mewn ffordd addas. Mae'r partneriaethau â'r rhieni a'r ysgol yn gadarnhaol.

### Ein canfyddiadau

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'n cael eu rhoi ar waith yn briodol. Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi darlun cywir o'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei gynnig. Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rôl i hyrwyddo'r Gymraeg a gallant ddangos bod y 'Cynnig Rhagweithiol' yn cael ei weithredu'n dda.

Mae gan yr arweinwyr system briodol i werthuso'r gwasanaeth drwy ddefnyddio holiaduron a siarad â'r plant, y rhieni a'r staff. Maent wedi defnyddio'r sylwadau hyn i ysgrifennu adroddiad yn adolygu ansawdd y gofal. Mae'r arweinwyr wedi tynnu sylw at yr hyn mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda, yr hyn sydd angen ei wella ac erbyn pryd er mwyn sicrhau bod canlyniadau gwell i'r plant yn cael eu cyflawni.

Gwnaethom edrych ar ffeiliau dau aelod o'r staff ac nid oedd yr holl wybodaeth ofynnol wedi cael ei chasglu i gadarnhau addasrwydd y gweithiwr, er enghraifft, nid oedd ail eirda ac nid oedd llun diweddar o'r aelod o staff. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod hyfforddiant y staff yn gyfredol. Cyflwynodd y person cofrestredig dystiolaeth i ni fod gwiriadau cofnodion troseddol manwl wedi cael eu cwblhau ar gyfer yr holl staff a chadarnhaodd ei bod yn fodlon ar eu haddasrwydd. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod y person cofrestredig yn eu cefnogi a'u bod yn cael sesiynau goruchwylio i drafod eu llesiant, ymarfer a chyfleoedd hyfforddiant â hi ond nid oedd y rhain yn cael eu cofnodi'n ffurfiol. Roedd yr arweinwyr yn cynnal arfarniadau blynyddol gyda'r staff. Gwnaethom archwilio cofnodion unigol dau blentyn ac roedd yr arweinwyr wedi casglu'r holl wybodaeth sy'n berthnasol i

ddiwallu anghenion unigol y plant.  Roedd yr arweinwyr yn gwneud yn siŵr bod y staff yn cofnodi presenoldeb y plant a'u presenoldeb eu hunain yn ddyddiol.

Dywedodd yr arweinwyr wrthym fod y partneriaethau â'r ysgol a'r rhieni yn gadarnhaol. Gwnaethom siarad â'r rhieni / gofalwyr a ddywedodd wrthym eu bod yn hapus â'r gofal roedd eu plant yn ei gael a bod y staff yn wych.  Mae'r arweinwyr wedi llwyddo i sicrhau grant gan yr awdurdod lleol i brynu adnoddau newydd ar gyfer chwarae yn yr awyr agored er mwyn helpu i ddatblygu profiadau'r plant.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gallai'r arweinwyr ystyried y canlynol:

- Bod yr holl wybodaeth sy'n ymwneud â meddyginiaeth ar gyfer y plant yn cael ei llofnodi gan y staff a'r rhieni;

- datblygu ardaloedd dysgu i gyfoethogi profiadau'r plant, er enghraifft, defnyddio nwyddau cartref masnachol wedi'u hailgylchu i ddatblygu chwilfrydedd y plant, cyflwyno adnoddau i godi ymwybyddiaeth y plant o'u cymdeithas ehangach a chreu corneli cyfforddus gyda dodrefn cyffyrddol a llyfrau er mwyn i'r plant ymlacio a gorffwys

- ffurfioli trefniadau goruchwylio'r staff drwy gofnodi'n gyson.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ddydd Iau 13 Chwefror 2020 rhwng 2:55 p.m. a 5:55 p.m.

Gwnaethom y canlynol:

- edrych ar sampl o ddogfennau, polisïau, ffeiliau dau aelod o'r staff a chofnodion unigol dau blentyn;

- arsylwi ar ymarfer a chwblhau sesiynau arsylwi er mwyn cael tystiolaeth o'r plant yn ymgysylltu â'r gofal a ddarperir gan y staff;

- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir, y teganau a'r adnoddau

- siarad â'r plant, y staff, y person cofrestredig, y person â chyfrifoldeb ac un rhiant / gofalwr.

Ddydd Mercher 19 Chwefror 2020 am 11:00 a.m. gwnaethom y canlynol:

- Rhoi adborth ar ein canfyddiadau i'r person cofrestredig dros y ffôn.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| **Person Cofrestredig** | Elena Williams |
| **Person â chyfrifoldeb** | Elena Williams<br>Gwennan Williams |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | 24 |
| **Ystod oedran y plant** | 4-11 oed |
| **Oriau agor** | Dydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 3:00 p.m. a 5:30 p.m. (yn ystod y tymor). |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | Cymraeg a Saesneg |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | 09 Chwefror 2017 |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | 13 Chwefror 2020 |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | Nac ydy |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | Nac ydy |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/08/2020